CAW107 Unigolyn

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch Chi

Unigolyn

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu(Cymru)?

Yn rhannol

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Mae'r Bil yn ei ffurf bresennol yn gwneud Saesneg yn elfen orfodol o'r cwricwlwm o 4oed, gyda'r posibilrwydd i gyrff llywodraethu ysgolion "optio allan"fesul un . Felly Saesneg bydd yr iaith swyddogol ymhob ysgol. Mae hyn yn mynd yn groes i ymrwymiad y Llywodraeth o weithredu un continwwm dysgu'r Gymraeg a'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr .Mae'n golygu bydd modd newid cyfrwng iaith ysgol ar fympwy cyrff llywodraethol a bydd yn rhwystro felly unrhyw gynllunio strategol gan awdurdodau lleol a'r Llywodraeth i dyfu addysg Gymraeg.

### 1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Does dim angen gorfodaeth ddeddfwriaethol i sicrhau bod disgyblion yn rhugl yn Saesneg. Mae sicrwydd bydd Saesneg yn cael ei dysgu yn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu heb fod angen cynnig deddfwriaethol penodol. Mae'r Saesneg

yn hollbresennol yn bywydau ein plant heddiw; y Gymraeg sydd eisiau cefnogaeth ddeddfwriaethol, nid Saesneg.

## 2. Gweithredu'r Bil

### 2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Mae'r cynnig o "optio mewn" i'r cyfnod trochi yn dangos diffyg dealltwriaeth o ddulliau trochi, sydd mor allweddol i lwyddiant addysg Gymraeg, ac yn peryglu eu parhad ar draws y wlad.

### 2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Nac ydy , nid yw'r Llywodraeth wedi cynnig unrhyw dystoliaeth na chyfiawnhad dros wneud Saesneg yn orfodol.

## 3. Canlyniadau anfwriadol

### 3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

O ganlynliad i'r Bil, bydd miloedd o blant yn colli'r siawns i ddod yn rhugl yn y Gymraeg cyn bod nhw'n troi yn 7 oed, felly bydd dyfodol yr iaith mwy bregus byth !

## 4. Goblygiadau ariannol

### 4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.**

(*byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.*)

-

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

Mae'n bwysig iawn bod plant Cymru yn dysgu hanes eu ardal lleol a hanes Cymru gyfan , er mwyn cael hyder yn eu gwreiddiau a nabod eu hunain fel dinasyddion balch Cymru.